

Chwaraeon Gogledd Cymru:

# Cael pobl yng Ngogledd Cymru yn Egniol. Am Oes.

---

Dogfen Briffio  
Ymgysylltu â'r Sector



## Cynnwys

Rhagair

T03

Adrannau

T04 – 08

# 1

**Yr Uchelgais  
a'r Cyfle:**  
Trawsnewid  
chwaraeon a  
gweithgaredd  
corfforol. Gyda'n  
gilydd.

T09 – 12

# 2

**Nodau a  
Deilliannau:**  
Yr hyn y ceisiwn ei  
gyflawni

T13 – 17

# 3

**Y Rôl:**  
Beth ydyn ni'n  
edrych amdano?

T18 – 28

# 4

**Y Broses:**  
Beth sy'n digwydd  
nesaf?

Atodiadau

Mae'r atodiadau dilynol i gyd ar gael ar [chwaraeieichrhan.cymru](http://chwaraeieichrhan.cymru) ac maent yn rhoi gwybodaeth gefndir ar y gwaith hyd yma

1. Achos Busnes Chwaraeon Gogledd Cymru
2. Rôl sefydliadau partner
3. Demograffeg poblogaeth
4. Fframwaith Gogledd Cymru ar gyfer ymwreiddio cydraddoldeb a diogelu.

# Rhagair

**Chwaraeon Gogledd Cymru\*: Creu cymunedau iach egniol yr ydym i gyd eisiau byw ynddynt, yn awr ac ar gyfer y dyfodol. Cael ein cymunedau yn egniol drwy chwaraeon.**

Rydym i gyd yn cydnabod fod gweithgaredd corfforol rheolaidd yn sylfaenol bwysig i iechyd a llesiant ein cymunedau ac mae system chwaraeon cymunedol effeithlon yn hanfodol os ydym i gyflawni ein nod o gael pawb yn egniol drwy chwaraeon.

Bu cynnydd cadarnhaol yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Fodd bynnag, gyda lefelau cyfranogiad yn amrywio ar draws ein rhanbarth, galw am fwy o gyfleoedd chwaraeon yn y Gymraeg, lefelau uchel parhaus o alw cudd a'r tebygrwydd o gyllidebau is ... mae angen gwneud llawer mwy o hyd!

Er ein cynnydd diweddar, nid yw gormod o bobl - a fedrai fanteisio o weithgaredd rheolaidd - yn gwneud hynny. Mae hynny'n cynnwys genethod a merched ifanc, pobl anabl, cymunedau pobl dduon a lleiafrif ethnig, a rhai'n byw yn ein hardaloedd gwledig anghysbell - a thlotaf - ymhlith eraill. Ein huchelgais ar y cyd ddylai fod i newid hyn a rhoi anghenion y rhai sy'n cymryd rhan (a'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan) yn flaenllaw yn ein meddyliau.

Yn dilyn y digwyddiadau ymgysylltu â'r sector a gynhaliwyd ar draws Gogledd Cymru yn Ionawr 2018, mae'r ddogfen briffio hon yn nodi syniadau presennol Chwaraeon Cymru ar sut y cyflwynir Chwaraeon Gogledd Cymru. Fodd bynnag, cydnabyddir mai proses amlinellol yw hyn ac rydym wedi cynnwys hyblygrwydd yn y dull gweithredu a'r amserlenni i sicrhau y cawn y canlyniad cywir.

Mae hwn yn gyfle cyffrous. Mae gennym ddiwylliant chwaraeon cryf, llwyfan chwaraeon cymunedol cadarn i adeiladu arno, amgylchedd naturiol rhagorol ac efallai heb ei ail, cyfleusterau chwaraeon gwych, a gweithlu medrus ymroddedig sydd eisiau cael eu grymuso i arloesi a sicrhau mwy o lwyddiant.

Erbyn diwedd 2018, bydd gan Ogledd Cymru ei sefydliad unigryw ei hun, Chwaraeon Gogledd Cymru, i gael cymunedau'n egniol. Rydym eisiau gweithio gyda chi i greu hynny. Bydd y sefydliad newydd hwn yn arwain ein gwaith gyda phartneriaid i drawsnewid chwaraeon a gweithgaredd rhanbarthol ar draws y rhanbarth.

Gyda'n gilydd, gallwn drawsnewid chwaraeon a gweithgaredd corfforol yng Nghymru. Fe'ch gwahoddwn i Chwarae eich Rhan.

**Graham Williams**

Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Gymuned

\*Chwaraeon Gogledd Cymru yw'r enw gwaith a ddefnyddiwn ar gyfer yr asiantaeth newydd, fydd yn cyflwyno gweithgaredd a chwaraeon yng Ngogledd Cymru. Nid ydym wedi'n clymu i'r teitl hwn a chroesawn enwau newydd a chreadigol gan sefydliadau tendro, yn neilltuol edrychwn am bartneriaid a all fynd i'r afael â'r her a helpu i sicrhau canlyniad rhagorol.

Yr Uchelgais  
a'r Cyfle:  
Trawsnewid  
Chwaraeon a  
Gweithgaredd  
Corfforol. Gyda'n  
Gilydd.

# Creu cymunedau iach egniol yr ydym i gyd eisiau byw ynddynt, nawr ac i'r dyfodol. Cael ein cymunedau yn egniol drwy chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

## Yr Uchelgais




Pawb yn gallu cyflawni eu potensial eu hunain

Pawb yn cael cyfle i fod yn egniol drwy chwaraeon a gweithgaredd corfforol

Pobl yng Ngogledd Cymru yn byw bywydau corfforol egniol

Pobl â'r sgiliau, hyder a'r cymhelliant i ddod yn egniol drwy chwaraeon

Yn Chwaraeon Cymru ein diddordeb yw helpu pawb i ddod yn egniol a chadw'n egniol - am oes. Yn y parc sglefrio neu ar y traeth, yn y pwll neu yn yr ysgol. Yn y clwb neu ar y trac. Rydym i gyd yn wahanol ac mae gennym ein diddordebau ein hunain, ond yr hyn sy'n bwysig yw bod gan bawb y sgiliau a'r cyfle i fod yn egniol. Gyda'n gilydd gallwn fynd i'r afael a'r lefelau isel o gyfranogiad ymysg grwpiau neilltuol. Yng Nghymru heddiw mae llawer mwy o fechgyn yn cymryd rhan mewn chwaraeon na genethod. Mae'r un peth yn wir am grwpiau eraill. Mae'n hollbwysig fod mwy o bobl anabl, mwy o deuluoedd o gymunedau amrywiol, a mwy o deuluoedd incwm is yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol. Mae'n rhaid i bawb fedru cyrraedd eu potensial - p'un ai yw hynny'n bod yn egniol gyda ffrindiau, galluogi pobl eraill i fod yn egniol, cymryd rhan mewn ras gymunedol 10k, neu ddod yn athletydd blaenllaw.



**Gyda'n gilydd, gallwn wneud Gogledd Cymru yn fan lle caiff pobl eu hysbrydoli i gynnwys gweithgaredd yn eu bywydau bob dydd, lle mae bod yn iach yn rhwydd - ac yn hwyl!**



## Cyflwyniad

---

**Gyda'n gilydd, gallwn wneud Gogledd Cymru yn fan lle caiff pobl eu hysbrydoli i gynnwys gweithgaredd yn eu bywydau bob dydd, lle mae bod yn iach yn rhwydd - ac yn hwyl!**

Gan weithio gyda chi a'ch cefnogi, mae Chwaraeon Cymru yn anelu i greu a gweithredu model cyflenwi a gweithredu o safon fyd-eang ar gyfer chwaraeon cymunedol yng Nghymru sydd yn:

- Ei gwneud yn rhwydd bod yn egnïol drwy chwaraeon
- Cynyddu nifer y cyfleoedd ansawdd uchel sydd ar gael
- Dileu'r rhwystrau y mae grwpiau neilltuol wedi sôn amdanynt
- Creu cymuned egnïol gysylltiedig - e.e. cysylltiadau rhwng ysgolion/clybiau/canolfannau hamdden/grwpiau gwirfoddol
- Ysbrydoli pobl i fod yn fwy egnïol - drwy weithgareddau/cyfleoesterau/rhaglenni/ amgylcheddau
- Cau'r bwlch mewn cyfranogiad rhwng y boblogaeth gyffredinol a grwpiau ffocws
- Creu llwybrau chwaraeon cyflawn (ffyrdd y gall pobl ymuno a mynd ymlaen gymaint neu cyn lleied ag yr hoffant yn unrhyw fath o chwaraeon. Gellir ymuno, gadael, ailymuno â'r llwybrau ar unrhyw gam a gan bob oed)
- Cynyddu'r canran o bobl sy'n cynnal gweithgaredd wythnosol rheolaidd ac yn cyflawni canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol

Rydym wedi cynnal ymgynghoriad helaeth gyda'r sector ac wedi datblygu achos busnes ar gyfer y model newydd, yn genedlaethol ac ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r Ddogfen Briffio yma'n rhoi:

- Trosolwg o'r deilliannau a nodau allweddol y mae Chwaraeon Cymru yn ceisio eu cyflawni
- Dolenni a manylion adnoddau defnyddiol a dogfennau cefndir i chi gael mwy o wybodaeth
- Manylion y camau nesaf a'r broses mae Chwaraeon Cymru yn ei datblygu i greu a gweithredu'r sefydliad newydd.

Mewn ymateb i'ch adborth rydym yn newid y dull buddsoddi sy'n rhaid iddo gyfrannu at y nodau a ffyrdd o weithio a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er ein bod yn glir am ein nodau a deilliannau, rydym yn hyblyg yn ein proses a strwythur Chwaraeon Gogledd Cymru, felly gofynnir i chi ddefnyddio'r dull ymgysylltu â'r sector yma i gyfrannu a helpu i lunio sut ydym yn sicrhau sefydliad arloesol. Er ein bod wedi diffinio'r broses yn y ddogfen hon, rydym yn ymwybodol mai'r allwedd yw cael y deilliannau cywir, ac felly mae hyblygrwydd yn bwysig.



## Pam y dylwn i gymryd rhan?

---

**Mae llawer o sefydliadau sy'n rhannu ein huchelgais, ac sydd â'u deilliannau a'u nodau ein hunain yn gydnaws â'r gwaith yma. Credwn fod manteision lluosog i gymryd rhan, er enghraifft:**

- Cyfle i weithio gyda phob sector o'r gymuned i sicrhau newid gwirioneddol
- Y cyfle i lunio a hybu chwaraeon cymunedol yng Ngogledd Cymru (a Chymru)
- Cynyddu adnoddau i'r eithaf i sicrhau'r cyfle i adeiladu arbedion maint
- Cyflawni eich amcanion chwaraeon cymunedol eich hunain mewn partneriaeth gydag eraill ar draws y sector
- Datblygu partneriaeth hirdymor gyda Chwaraeon Cymru a datblygu partneriaethau ar draws Gogledd Cymru
- Mynediad i gyllid
- Y potensial i arloesi a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel ar gyfer y cymunedau a wasanaethwch

Credwn fod hwn yn gyfle cyffrous i sefydliadau ar draws amrywiaeth o sectorau: p'un ai ydych yn Awdurdod Lleol, yn Sefydliad Addysgol, Sefydliad Iechyd, Elusen neu Fudiad Gwirfoddol, Gweithredwr (neu Ymddiriedolaeth) Cyfleuster Hamdden, Clwb Chwaraeon neu Sefydliad Cymunedol arall.

Hyderwn y byddwch yn ystyried y cyfle hwn ac yn gweld y manteision mewn cymryd rhan yn yr ymgysylltu â'r sector - ac yn y pen draw - y broses gomisiynu. Yn neilltuol rydym yn awyddus i ddeall unrhyw bryderon a all fod gennych yng nghyswllt y broses (e.e. amserlen, risg, yr adnoddau sydd eu hangen) fel y gallwn deilwra hyn i sicrhau y gallwn, gyda'n gilydd, sicrhau'r canlyniad cywir.

---

**Cyfle i weithio gyda phob sector o'r gymuned i sicrhau newid gwirioneddol**



# Nodau a Chanlyniadau: Yr hyn y ceisiwn ei gyflawni

**Y brif nod yw sicrhau fod Chwaraeon Cymru yn buddsoddi i gael y boblogaeth yn egniïol, eu cadw'n egniïol a sicrhau eu bod yn cadw'n egniïol am oes. Ar gyfer rhai pobl yn ein cymunedau mae nifer o rwystrau sy'n ei gwneud yn anos iddynt fod yn egniïol ac mae hyn yn arbennig o wir am y rhai sy'n byw mewn tloedi. Rydym eisiau i chi ymgysylltu'n rhagweithiol a chefnogi'r cymunedau hynny a dileu'r rhwystrau i gymryd rhan.**

Rydym eisiau gweld mwy o bobl yn ymgymryd â gweithgaredd wythnosol rheolaidd, yn unol ag argymhellion y Prif Swyddog Meddygol, ac i hyn gael ei gynnal ar hyd eu bywydau. Mae'r budd iechyd mwyaf ar gyfer pobl nad ydynt yn egniïol ar hyn o bryd, neu'n cymryd rhan yn anaml, sy'n dod i gymryd rhan yn rheolaidd bob wythnos. Buddsoddiad Chwaraeon Cymru a rôl Chwaraeon Gogledd Cymru fydd cynyddu cyfranogiad y 'rhaid sy'n cymryd rhan yn anaml' a'r rhai sydd a'r potensial i gymryd rhan yn rheolaidd bob wythnos.

Wrth ddatblygu'r dull gweithredu hwn, sylweddolwn fod nifer o sefydliadau sydd â rôl mewn cael poblogaeth Cymru i fod yn fwy egniïol. Mae Chwaraeon Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar y ffordd orau y gellir cyflenwi buddsoddiad Chwaraeon Cymru i gyfrannu at lefelau uwch o weithgaredd. Disgwylir i'r sefydliad newydd ymgysylltu a datblygu partneriaethau effeithlon gyda'r sefydliadau eraill sydd â rôl mewn cynyddu lefelau o weithgaredd corfforol, er enghraifft awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cael Gogledd Cymru i Symud a'r bwrdd iechyd.





## Canlyniad a Ddymunir

Rydym eisiau sefydlu partneriaeth strategol hirdymor yng Ngogledd Cymru fydd yn sicrhau ein huchelgais ar y cyd i gael mwy o bobl yn egnïol drwy chwaraeon ac mae'n gosod gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng nghalon ei gynllunio a ffyrdd newydd o weithio. Bydd comisiynu Chwaraeon Gogledd Cymru yn sicrhau y gwneir cyfraniad sylweddol at y deilliannau dilynol:

- Cael mwy o bobl yn egnïol ar bob cam o'u bywydau: tra'u bod yn yr ysgol, pan fyddant yn gadael addysg, pan gânt swydd, os oes ganddynt eu teulu eu hunain, a phan maent yn ymddeol.
- Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a rhoi'r wybodaeth, cymhelliant a hyder iddynt fod yn egnïol ac aros yn egnïol.
- Buddsoddi amser ac adnoddau lle mae fwyaf eu hangen, lle mae amrywiadau sylweddol mewn cyfranogiad a lle mae diffyg cyfle neu ddymuniad i fod yn egnïol.

Bydd gennych hefyd rôl gefnogol i helpu meithrin a datblygu talent i gyflwyno llwyddiant chwaraeon sy'n ysbrydoli pobl ac yn cryfhau ein hunaniaeth fel cenedl hoff o chwaraeon.

Bydd Chwaraeon Gogledd Cymru yn rhoi cyfle i bobl, drwy chwaraeon a hamdden corfforol, i fabwysiadu ffordd iach o fyw o weithgaredd corfforol rheolaidd. Ar y dudalen ddilynol rydym yn nodi'r deilliannau a mesurau llwyddiant a ddymunwn – ar lefel strategol (cydlynny) ac ar lefel cyflenwi.

**Bydd gennych hefyd rôl gefnogol i helpu meithrin a datblygu talent i gyflwyno llwyddiant chwaraeon sy'n ysbrydoli pobl ac yn cryfhau ein hunaniaeth fel cenedl hoff o chwaraeon.**

## Deilliannau Strategol

- Mae gan chwaraeon broffil uchel yng Ngogledd Cymru ac mae'n cyfrannu'n effeithlon at y nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Ffyniant i Bawb
- Sefydliad a gaiff ei lywodraethu'n dda, a all sicrhau y cyflenwir safonau a disgwyliadau allweddol
- Rhaglen gynaliadwy o wasanaethau chwaraeon a gweithgareddau deniadol ac effeithlon
- Rhwydwaith partneriaeth wedi ymgysylltu ac sy'n cyflwyno cynlluniau arloesol yn effeithiol
- Effaith buddsoddiad Chwaraeon Cymru yn cynyddu drwy ysgogiad a buddsoddiad masnachol
- Cymunedau'n ymgysylltu'n gadarnhaol gyda gwasanaethau a gomisiynwyd
- Partneriaeth a all gyflenwi'r prosesau meddwl a chyflenwi diweddaraf un
- Yr un adnodd "mynd ato" ar gyfer yr holl chwaraeon a gweithgareddau a gyflenwir yn lleol

## Deilliannau Cyflenwi

- Pobl ifanc â'r cymhelliant, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ar hyd eu hoes
- Drwy gyswllt ag ystod eang o weithgareddau ansawdd ifanc, gall pobl ifanc wneud dewisiadau gwybodus sy'n cefnogi ymarfer corfforol wythnosol rheolaidd
- Pawb yn medru cymryd rhan beth bynnag eu cefndir ac amgylchiadau
- Gweithlu medrus ac amrywiol
- Digonedd o alluedd lleol i sicrhau cysondeb yn y cyfleoedd sydd ar gael
- Buddsoddiad yn cyflenwi canlyniadau seiliedig ar ddirnadaeth, yn cael ei ddefnyddio fel offeryn datblygu ac yn denu adnoddau ychwanegol

## Dangosyddion Perfformiad Chwaraeon Gogledd Cymru

- Mwy o bobl yn cyflawni canllawiau gweithgaredd corfforol y Prif Swyddog Meddygol
- Mwy o bobl yn gwneud chwaraeon a hamdden egnïol 3 neu fwy o weithiau yr wythnos
- Cynnydd yn y boblogaeth sy'n ymgymryd â gweithgaredd wythnosol, rheolaidd
- Cau'r bwlch mewn cyfranogiad rhwng y boblogaeth gyffredinol a grwpiau ffocws (e.e. merched a genethod, cymunedau pobl dduon a lleiafrif ethnig, y rhai'n byw mewn tldi)



Mae canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a datblygiad yr achos busnes ar gael yn adran adnoddau [chwaraeeichrhan.cymru](http://chwaraeeichrhan.cymru)

**Y Rôl:**

**Beth ydyn ni'n  
edrych amdano?**

**3**

# Mae Chwaraeon Cymru yn edrych am bartner i gyflenwi Chwaraeon Gogledd Cymru. Gofynnir i'r partner a ffafrir i:

Sicrhau bod y buddsoddiad yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir, gan ddangos hyn drwy werthusiad ac adrodd

Ysgogi'r effaith mwyaf posibl o fuddsoddiad Chwaraeon Cymru drwy fod yn llawer mwy masnachol a thrwy ysgogi adnoddau gan bartneriaid newydd

Targedu a rhoi blaenoriaeth i anghenion y rhai sy'n cymryd rhan (a rhai nad ydynt yn cymryd rhan) a grymuso cymunedau cefnogi pobl i ddod, ac aros, yn egniol.

## Caiff hyn ei gyflawni mewn dwy ffordd:

### Arweinyddiaeth Strategol

- Cyflawni deilliannau
- Arweinyddiaeth strategol ranbarthol: cynllunio, cydlynu a blaenoriaethu buddsoddiad
- Ymwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a llywodraethiant yn y model gweithredu
- Mabwysiadu mathau effeithlon o ymddygiad sy'n sicrhau bod y 5 ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Hirdymor, Integreiddio, Ymgyfraniad, Cydweithredu, Ataliaeth) yn ganolog i gynllunio a chyflenwi.

### Comisiynu a/neu Gyflenwi Gwasanaethau Ansawdd Uchel

- Comisiynu gwasanaethau, cynlluniau a rhaglenni ansawdd uchel.
- Efallai gyflenwi gwasanaethau, cynlluniau a rhaglenni, seiliedig ar ddirnadaeth, ac sy'n adeiladu ar agweddau llwyddiannus y system gyflenwi bresennol.



Caiff rolau sefydliadau partneriaeth posibl eu disgrifio'n fwy manwl yn: [chwaraeichrhan.cymru/adnoddau/](http://chwaraeichrhan.cymru/adnoddau/)

# Y Cam Ymgysylltu Sector ar gyfer Chwaraeon Gogledd Cymru yw'r cam cyntaf i fod ar flaen y gad mewn newid ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd cymunedol yng Nghymru.

## Sut y gallwch gymryd rhan?

Mae Chwaraeon Cymru yn edrych am gefnogaeth ac ymgyfraniad traws-sector wrth gyflenwi Chwaraeon Gogledd Cymru. P'un ai ydych yn Awdurdod Lleol, Sefydliad Addysgol, Clwb Chwaraeon, Elusen, Gweithredydd Hamdden neu Sefydliad Iechyd, credwn fod rôl i bawb:

- Corff Arweiniol neu bartner a ffafrir - arwain Chwaraeon Gogledd Cymru ac ymrwmo i gontract gyda Chwaraeon Cymru
- Rhan o gonsortiwrm neu rôl gefnogi - fel aelod allweddol o gonsortiwrm sy'n cyfrannu at gyflenwi chwaraeon yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd
- Rhan o'r gadwyn gyflenwi - cyflwyno rhaglenni a gweithgareddau penodol ar gyfer Chwaraeon Cymru (un ai ar draws y rhanbarth neu mewn un ardal benodol)
- Cyllidwr a chefnogwr - dod â chyllid ychwanegol i mewn drwy nawdd, neu gyfraniadau, i gefnogi a sicrhau deilliannau gwell
- Hyrwyddwr - helpu i hyrwyddo gwaith Chwaraeon Gogledd Cymru.

**Dyma'ch cyfle chi i gymryd rhan. Drwy'r rhaglen ymgysylltu â'r sector, cewch gyfle i gwrdd a chydlynu gyda sefydliadau eraill, fel y gallwch weld sut i chwarae eich rhan yn Chwaraeon Gogledd Cymru.**

Y brif nod yw sicrhau bod Chwaraeon Cymru yn buddsoddi mewn cael y boblogaeth yn egniïol, eu cadw'n egniïol a sicrhau eu bod yn aros yn egniïol am oes.





## Adnoddau


---

Byddwn yn gwneud buddsoddiad sylweddol i sicrhau'r canlyniad a ddymunir. Rydym hefyd wedi datblygu cyfres o adnoddau i helpu esbonio eich rôl a rolau Chwaraeon Cymru ac eraill wrth gyflawni'r nod. Byddwn hefyd yn darparu ystod eang o wasanaethau a staff i'ch cefnogi. Rhagwelwn y byddwch hefyd yn dod ag ystod o sgiliau ac adnoddau i helpu cyflawni ein nod.

Byddwn yn darparu tua £200,000 y flwyddyn gyllid craidd, gyda £2.8 miliwn arall y flwyddyn o gyllid Loteri a chyllid Llywodraeth Cymru a weinyddir gan Chwaraeon Cymru fydd ar gael ar ôl i'r cyfnod trosiant gael ei gwblhau'n foddhaol. Bydd hyn er mwyn datblygu, comisiynu a darparu cyfleoedd ansawdd uchel i sicrhau fod pobl yn mynd yn egnïol, ac yn aros yn egnïol, drwy chwaraeon.

Cydnabyddir fod y cyllid sydd ar gael yn seiliedig ar gyllidebau presennol a bydd Chwaraeon Cymru yn disgwyl i bartneriaid a ffafrir ddangos y byddant yn cyflawni'r deilliannau allweddol i sicrhau cyllid yn y dyfodol. Sylweddolwn y gall fod angen cyllid ychwanegol i gyflawni ein nod. Disgwylir felly i'r partneriaid a ffafrir hefyd i ddangos sut y byddant yn codi'r cyllid ychwanegol hwn (yn cynnwys Gwerth mewn Da) drwy fenter ac arloesi.

## I hyn o beth drwy'r broses tendr gallwn fod yn edrych am ddau opsiwn gan bartneriaid



# £2.8 miliwn

Byddwn yn darparu tua £200,000 y flwyddyn o gyllid craidd, gyda £2.8 miliwn y flwyddyn arall gan gyllid y Loteri a Llywodraeth Cymru a weinyddir gan Chwaraeon Cymru fydd ar gael ar ôl i'r cyfnod trosglwyddo gael ei gwblhau'n foddhaol.

**Y Broses:  
Beth sy'n  
digwydd nesaf?**

**4**


# Proses Gaffael

Mae Chwaraeon Cymru yn deall ac yn gwerthfawrogi y bydd y dull gweithredu newydd yn dod â heriau; yn yr un modd nid yw Chwaraeon Cymru eisiau cau allan unrhyw sefydliad sydd ag uchelgais i chwarae eu rhan yn Chwaraeon Gogledd Cymru.

Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio'r broses ddilynol, yn cynnwys cam comisiynu ffurfiol, fodd bynnag mae'n bwysig bod hyn yn hyblyg, ac felly gall newid ar ôl cwblhau'r cam Ymgysylltu â'r Sector. Rydym yn awyddus fod sefydliadau'n ymgysylltu ac yn rhoi adborth ar y broses i helpu rhoi gwybodaeth ar gyfer cyflenwi Chwaraeon Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Disgwylir i'r broses tendr ddilyn system cyffyrddiad ysgafn yr OJEU.

Mae'r diagram llif hwn yn crynhoi'r broses y mae Chwaraeon Cymru yn dymuno ei dilyn. Rhoddwn fanylion pellach islaw ar y camau allweddol a'r dull gweithredu, gydag awgrym o amserlen ar gyfer y broses. Dylid nodi fod yr amserleni hyn yn hyblyg, os bydd angen mwy o amser i gael y canlyniad gorau i Chwaraeon Gogledd Cymru.



Cam	Disgrifiad	Dyddiadau Allweddol
Achos dros Newid	Datblygu'r Achos dros Newid ac Achos Busnes Chwaraeon Gogledd Cymru yn dilyn ymgynghoriad gyda phartneriaid allweddol	Wedi cwblhau
Ymgysylltu â'r Sector	Dyma'r cam lle gofynnwn am adborth gan y sector a llunio'r broses gomisiynu ffurfiol: <ul style="list-style-type: none"> <li>— Sesiynau Ymgysylltu i gyflwyno Chwaraeon Gogledd Cymru</li> <li>— Lansio'r ddogfen briffio hon i roi mwy o wybodaeth a chyfle i sefydliadau roi adborth</li> <li>— Cynnal sesiynau ymgynghori gyda sefydliadau sector i drafod y dull gweithredu a deilliannau</li> <li>— Cysylltu gyda sefydliadau allweddol sy'n debygol o fod yn cynnig i gynnal trafodaethau anffurfiol un i un</li> <li>— Adolygu adborth a chwblhau'r dull Datganiad Diddordeb a dogfennau</li> </ul>	Wedi cwblhau Chwefror/Mawrth 2018 Chwefror/Mawrth 2018 Mawrth/Ebrill 2018 Mawrth/Ebrill 2018
Datganiad Diddordeb	Mae Chwaraeon Cymru yn cynnig hysbysebu'r cyfle (yn cynnwys OJEU) a gwahodd sefydliadau a chonsortia i gyflwyno Datganiad Diddordeb ffurfiol yn y cyfle. <p>Rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys y gofyniad i gofrestru eich diddordeb yn ffurfiol a rhoi gwybodaeth ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— Manylion eich sefydiad (a chonsortium)</li> <li>— Profiad perthnasol a chefnidir</li> <li>— Manylion eich strwythur a dull gweithredu disgwylidig</li> </ul> <p>Yn dilyn y Datganiad Diddordeb rhagwelir y bydd dialog a gwerthuso, gan roi ystyriaeth i'ch cefndir a'ch dull gweithredu (megis dull cydweithredu)</p>	Ebrill/Mai 2018  Mai 2018
Comisiynu Chwaraeon Gogledd Cymru	Yn amodol ar yr ymateb o'r cam Datganiad Diddordeb, bydd Chwaraeon Cymru yn dechrau'n ffurfiol ar broses gomisiynu a allai gynnwys unrhyw un o'r dilynol (neu yn wir ddulliau gweithredu eraill a ddynodir drwy'r ymgysylltu): <ul style="list-style-type: none"> <li>— Proses ffurfiol Gwahoddiad i Dendro i ganiatau cynigion cystadleuol</li> <li>— Dull partneriaeth gyda nifer o sefydliadau â diddordeb i ddangos cydweithio</li> <li>— Datblygu is-gorff Chwaraeon Cymru</li> </ul> <p>Disgwylir y bydd y broses gomisiynu (yn tybio proses dendro ffurfiol) yn galluogi Chwaraeon Cymru i benodi partner a ffafrir, ac y bydd y broses allweddol yn cynnwys y dilynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— Gwahoddiad i dendro sy'n cynnwys manyleb, meini prawf gwerthuso a drafft gontract</li> <li>— Dialog gyda sefydliadau a wahoddwyd i dendro i drafod y dogfennau</li> <li>— Derbyn cyflwyniadau gan sefydliadau â diddordeb</li> <li>— Gwerthuso a phenodi partner a ffafrir</li> </ul>	Amserlenni i'w cadarnhau
Trosiant	Cyfnod trosiant lle mae Chwaraeon Cymru a'r partner a ffafrir yn datblygu Chwaraeon Cymru ac yn sicrhau bod y sefydliad newydd ar waith yn llwyr	Amserlenni i'w cadarnhau
Gweithredu	Chwaraeon Gogledd Cymru yn dod yn llawn weithredol	Disgwylir i fod yn 1 Ebrill 2019

Mae'r amserlen yn ddarpariaethol ar y cam hwn a gall gael ei newid.



## Ymgysylltu â'r Sector - Pwy ddylai ymateb

**Meithrin a datblygu talent i gyflawni llwyddiant chwaraeon sy'n ysbrydoli pobl ac yn cryfhau ein hunaniaeth fel cenedl chwaraeon.**

**Mae gan Chwaraeon Cymru feddwl agored wrth ystyried yr apwyntiad. Rydym eisiau ymgysylltu â chi cyn y broses gomisiynu ffurfiol i lunio a strwythuro ein dull gweithredu, fel y gall unrhyw sefydliad sy'n cynnig fedru dangos:**

- Y byddant yn hyfyw, a chynaliadwy yn yr hirdymor
- Bod ganddynt weledigaeth ar gyfer y dyfodol
- Bod ganddynt ddealltwriaeth gref o'r tirlun chwaraeon y byddant yn gweithredu ynddo
- Eu bod yn medru rhoi cyfrif o'r camau y byddant yn eu cymryd i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn fewnol a thrwy gyflenwi
- Bod ganddynt hanes o lwyddiant mwn ateb safonau diogelu
- Y gallant ddangos hanes o lwyddiant mewn cyflenwi a bod ganddynt gyfuniad o sgiliau perthnasol i'r heriau y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni.

**Gallai Chwaraeon Gogledd Cymru fod ar sawl ffurf. Er enghraifft gallai fod yn:**

- Sefydliad hollol newydd, efallai yn sefydliad pwrpasol nid-er-elw
- Consortiwm o sefydliadau presennol
- Sefydliad a gaiff ei arwain gan sefydliad presennol, a allai ddod o unrhyw sector
- Sefydliad sy'n gweithredu fel ymbarél ar gyfer darparwyr gwasanaeth
- Sefydliad addysgol neu rywbeth hollol wahanol

Mae Chwaraeon Cymru yn rhagweld y gallai sefydliad hollol newydd ddod i'r amlwg sydd, er yn cynnwys elfennau fydd yn unigol neu'n gyfunol â hanes o lwyddiant mewn cyflenwi, llywodraethiant ariannol, heb hanes o lwyddiant ei hun fel y corff newydd.

**Disgwylwn y gallai'r partner a ffafrir ar gyfer Chwaraeon Gogledd Cymru ddod o unrhyw sector ac yn wir ei bod yn debygol y bydd yr ymatebion gorau yn adlewyrchu ystod eang o ddiddordebau ar draws gwahanol sectorau, megis:**

- Partneriaid Awdurdod Lleol
- Prifysgol a/neu Sefydliadau Addysg Bellach
- Sefydliadau lechyd
- Sefydliadau Elusennol neu Wirfoddol, p'un ai'n gweithio mewn chwaraeon cymunedol ar hyn o bryd ai peidio
- Gweithredwyr Cyfleusterau Hamdden
- Clybiau Chwaraeon a sefydliadau chwaraeon eraill
- Cymdeithasau Cymunedol

Rhagwelwn fod gan yr holl sefydliadau uchod (ac eraill) rôl i'w chwarae wrth gyflenwi Chwaraeon Gogledd Cymru (fel y dangoswyd yn gynharach) felly gofynnwn i chi ddefnyddio'r cyfle hwn i fewnbynu i'r broses, a dynodi partneriaid eraill y gallwch eu cefnogi neu weithio gyda nhw, i fod yn rhan o Chwaraeon Gogledd Cymru.

Yn dilyn y sesiynau ymgysylltu ym mis Ionawr, mae Chwaraeon Cymru wedi trefnu cyfleoedd i sefydliadau i godi ymholiadau a rhoi adborth ar y dull gweithredu a'r deilliannau cyffredinol fel sy'n dilyn:

- **Gwefan - chwaraeeichrhan. cymru** sydd â chyfres o gwestiynau cyffredin ac sydd hefyd yn rhoi cyfle i sefydliadau gysylltu gyda sefydliadau eraill o'r un anian i efallai ystyried bod yn bartneriaid
- **Pwynt cyswllt e-bost** ar gyfer sefydliadau i roi adborth a chodi cwestiynau
- **Sesiynau ymgynghori** i sefydliadau drefnu apwyntiad i drafod eu diddordeb a hefyd ddynodi sefydliadau posibl eraill y gallent fod yn bartneriaid iddynt fel rhan o Chwaraeon Gogledd Cymru. Gellir trefnu'r sesiynau hyn drwy'r wefan.



Mae Chwaraeon Cymru yn awyddus fod pob sefydliad yn cael cyfle i drafod eu dull gweithredu neu syniadau yn yr Ymgysylltu â'r Sector ac felly'n barod i gael ymgynghoriadau a dialog pellach fel sydd angen.

Dylai unrhyw sefydliad gysylltu â [playyourpart@sportwales](mailto:playyourpart@sportwales)

**Ar y cam hwn nid oes angen unrhyw ymrwymiad ffurfiol gan sefydliadau ac mae Chwaraeon Cymru yn gofyn am adborth a mewnbwn i strwythuro'r broses tu hwnt i'r ymgysylltu**



# Cam Datgan Diddordeb



**Yn dilyn ymgysylltu â'r sector, ac unwaith mae Chwaraeon Cymru wedi adolygu'r dull gweithredu a lefel y diddordeb posibl, cynigiwn lansio cam Datgan Diddordeb a fyddai'n dechrau'r broses gomisiynu ffurfiol. Mae hyn yn debygol o gynnwys:**

- Hysbysebu'r cyfle drwy OJEU a chyfnodolion eraill perthnasol
- Cyhoeddi Memorandwm Gwybodaeth fydd yn nodi'r gofynion allweddol gan sefydliadau ond rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys:
  - Cefndir a phrofiad y sefydliad
  - Eich gweledigaeth ar gyfer dyfodol Chwaraeon Gogledd Cymru
  - Eich dull llywodraethiant a threfniadaeth
  - Gwybodaeth ar unrhyw bartneriaid a'ch consortiwm (os yn briodol)
  - Eich agwedd at gydweithredu ar draws y sectorau a dangos partneriaethau
  - Eich amserlen ar gyfer y dull gweithredu.

- Bydd y Memorandwm Gwybodaeth hefyd yn nodi sut y bydd Chwaraeon Cymru yn gwerthuso Datganiadau Diddordeb i asesu os byddai gan gynigwyr y gallu i sicrhau'r deilliannau, yn ogystal â'r ymagwedd debygol at y broses gomisiynu ffurfiol.
- Gwahoddir sefydliadau i gyflwyno ymatebion erbyn dyddiad cau, ac wedi hynny mae'n debygol y bydd dialog gyda sefydliadau â diddordeb i alluogi mireinio'r broses gomisiynu. Er enghraifft, efallai y byddai gan rai sy'n datgan diddordeb fod yn bartneriaid i sefydliadau eraill i gyflenwi datrysiad gwell.

Rhagwelir y caiff ymatebion Datganiad Diddordeb eu strwythuro fel nad yw cynigwyr yn gorfod buddsoddi adnoddau sylweddol i ymateb. Er enghraifft, os caiff corff newydd ei sefydlu, ni fydd gofyniad ar y cam hwn fod y corff eisoes wedi ei ffurfio.

**Nid yw Chwaraeon Cymru yn disgwyl i sefydliadau fod wedi datblygu eu dull gweithredu yn llawn neu'n wir i fod wedi ffurfio unrhyw gyrff cyfreithiol newydd. Mae'r cam hwn er mwyn deall y lefel debygol o ddiddordeb gan y farchnad i alluogi Chwaraeon Cymru i benderfynu ar y llwybr mwyaf addas ar gyfer comisiynu.**

# Y brif nod yw sicrhau fod Chwaraeon Cymru yn buddsoddi i gael y boblogaeth yn egniol, eu cadw'n egniol a sicrhau eu bod yn aros yn egniol am oes.

Cydnabyddir fod datblygu Chwaraeon Gogledd Cymru yn heriol a bod ganddo hefyd y potensial fod yn wir drawsnewidiol. O'r herwydd, mae'n bwysig ei fod yn cyflawni'r deilliannau. Yn dilyn y cam Datgan Diddordeb a dialog gyda phartïon â diddordeb, bydd Chwaraeon Cymru yn adolygu'r broses gomisiynu ac, er ein bod yn disgrifio proses dendr ffurfiol islaw, gall ystyried ymagweddau eraill at gomisiynu, megis:

- Partneriaeth wedi'i negodi, lle mae Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda nifer o bartneriaid sydd wedi mynegi diddordeb i greu a datblygu Chwaraeon Gogledd Cymru drwy'r trosiant
- Is-gorff Chwaraeon Cymru a sefydlir fel Chwaraeon Gogledd Cymru i gyflawni'r deilliannau

**Yn ystod y broses comisiynu, gwahoddir partïon â diddordeb i ddangos sut a phryd y bwriadant sefydlu eu hannibyniaeth, yn defnyddio er enghraifft:**

- Adnoddau presennol gan sefydliad cyfrannu
- Cefnogaeth a gyrchir drwy asiantaethau eraill
- Cefnogaeth rhiant gwmnïau
- Cefnogaeth awdurdod/ymddiriedolaeth/cwmni cynnal
- Cefnogaeth gyfreithiol arbenigol
- Tystlythyrau bancio/cyllid





**Disgwylir y bydd y Gwahoddiad i Dendro yn cynnwys y dogfennau allweddol dilynol (yn dibynnu ar y dull gweithredu):**

- Cyfarwyddiadau a Chanllawiau i Gynigwyr - yn gosod gofynion y cynnig a'r dull gwerthuso
- Manyleb - yn cynnwys allbynnau manwl, mesurau, deilliannau, ymagweddau, mathau ymddygiad a llwyddiannau y disgwylir i'r cynigydd a ffafrir eu cyflenwi
- Cytundeb Partneriaeth - y cytundeb cyfreithiol ffurfiol i'w lofnodi gan y partner a ffafrir

Disgwylir i gynigwyr ddarparu cyfres o ddatganiadau dull ar sut y byddant yn cyflawni'r fanyleb ar wedd fframwaith seiliedig ar ddeilliannau a pherfformiad, sy'n dangos sut y bydd yn cyflawni'r allbynnau, targedau a deilliannau a osodwyd gan Chwaraeon Cymru yn y dogfennau tendr.

Bydd y broses werthuso yn rhoi sgôr i ymateb y tendr ar y fanyleb a chyflawni'r deilliannau a ddymunir (a ddangosir drwy eu datganiadau dull) gyda'r tendr sgorio uchaf yn cael ei ddewis fel y cynigydd a ffafrir. Caiff y broses sgorio a gwerthuso ei gosod yn fanwl fel rhan o'r dogfennau tendr.

**Fan leiaf, bydd angen i sefydliad sy'n cyflwyno tendr fedru dangos:**

- Gwybodaeth fanwl o'r rhanbarth yn cynnwys y materion yn ymwneud â chymryd rhan mewn gweithgareddau a chwaraeon
- Dealltwriaeth o nodau a ffyrdd o weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac yn gallu eu rhoi ar waith
- Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth cydraddoldeb sy'n berthnasol i sefydliad sy'n darparu swyddogaeth gyhoeddus
- Ymrwymiad i gyflawni'r Fframwaith Ymwreiddio Cydraddoldeb a Diogelu
- Hanes o lwyddiant (a all fod drwy'r partneriaid cyflenwi o fewn sefydliad newydd)
- Gweithdrefnau llywodraethiant hyfyw (neu y gallant sefydlu hynny)

- Polisiau a gweithdrefnau sy'n cyrraedd safonau Chwaraeon Cymru (neu y gallant fabwysiadu hynny)
- Sicrwydd ariannol (neu y gallant ddangos y bydd hynny ganddynt)

Bydd gan Chwaraeon Gogledd Cymru, gan weithredu o fewn y fframwaith a gytunwyd ar gyfer deilliannau perfformiad, annibyniaeth i benderfynu ar y ffordd orau i gyflwyno gwasanaethau chwaraeon a gweithgaredd o fewn y rhanbarth.

Cynhelir cyfres o sesiynau dialog yn ystod y Cam Comisiynu gyda sefydliadau sy'n bwriadu cyflwyno tendr, er mwyn egluro'r gofynion allweddol a helpu cynigwyr i luno a strwythuro eu cyflwyniad.



# Cyfnod Trosiant

Caiff corff newydd Chwaraeon Gogledd Cymru ei gefnogi gan Chwaraeon Cymru drwy fliwyddyn gyntaf ei weithrediad neu hyd nes y bydd y partner yn llwyr weithredol ac yn gallu arddangos hyfywedd cynaliadwy llawn. Bydd cefnogaeth yn amrywio yn ôl galw ond gallai gynnwys y dilynol:

Tystiolaeth o alw cudd

Arbenigedd ar gydraddoldeb

Adnoddau Dynol

Arbenigedd ar lywodraethiant

Cyllid a chyfrifeg

Cynllunio gweithredu diogelu

Adroddiadau tystiolaeth

Dirnadaeth ar gyfranogiad partneriaid

Cyhoeddir y ddogfen briffio hon i ddisgrifio'r hyn a gynigir a'r hyn a geisir. Rhagwelwn y bydd yn codi llawer o gwestiynau, a dyna pam fod y broses yn cynnwys cyfleoedd i gwrdd gyda thîm prosiect Chwaraeon Cymru i drafod opsiynau a chael arweiniad/eglhurhad.

**Yn ystod y cyfnod trosiant bydd Chwaraeon Cymru yn disgwyl y bydd y partner a ffafrir yn cyflenwi ar ei ddull gweithredu fel y nodir yn y datganiadau dull a bydd yn darparu cefnogaeth ac adnoddau i weithio gyda'r partner a ffafrir i sicrhau trosiant llwyddiannus. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn disgwyl y bydd y partner a ffafrir mewn sefyllfa i lofnodi cytundeb partneriaeth yn gynnar yn y cyfnod trosiant.**

## Dyma'ch cyfle i gysylltu a chwarae eich rhan. Helpwch ni i lunio'r broses a'r dull gweithredu cyffredinol drwy roi adborth a thrafod eich diddordeb:



Ewch i'r wefan [chwaraeeichrhan.cymru](http://chwaraeeichrhan.cymru) i adolygu dogfennau cefndir, darllen y cwestiynau cyffredin, cyflwyno adborth a dod o hyd i sefydliadau eraill o'r un anian sydd â diddordeb mewn cynnig neu gefnogi cynigion.

Os ydych yn glwb lleol/sefydliad/ neu unigolyn fe ddewch o hyd i'r holl wybodaeth sydd ar gael ar y wefan. Byddwn yn diweddarau'r safle yn gyson wrth i'r broses ddatblygu. Unwaith y penodwyd Corff Arweiniol yn ddiweddarach eleni, bydd yn dechrau ymgynghori'n lleol ar draws Gogledd Cymru i lunio'r ffordd ymlaen. Bydd hyn yn gyfle gwych i chi ChwaraeEichRhan a helpu i lunio'r dyfodol ar gyfer Gogledd Cymru - felly cofrestrwch eich diddordeb os gwelwch yn dda os hoffech i ni gysylltu â chi pan fydd hyn yn digwydd.

Os ydych yn cynrychioli sefydliad sydd â diddordeb mewn chwarae rôl sylweddol wrth gyflenwi Chwaraeon Gogledd Cymru un ai fel partner arweiniol neu allweddol, neu'n ystyried eich dewisiadau, yna gofynnir i chi gofrestru i ymuno â ni yn un o'r sesiynau ymgynghori neu ddefnyddio'r ffurflen cyswllt i anfon neges atom.



Archebu lle mewn sesiwn ymgynghori i drafod eich diddordeb gyda Chwaraeon Cymru



Cyflwyno cwestiynau allweddol drwy'r wefan neu drwy e-bost i [playyourpart@sport.wales](mailto:playyourpart@sport.wales)



Cysylltu â [playyourpart@sport.wales](mailto:playyourpart@sport.wales) am drafodaeth anffurfiol am y dull weithredu

Neu gallwch aros nes y caiff y cyfle ei hysbysu (disgwylir yn Ebrill/Mai 2018) pryd y cyhoeddir manylion llawn sut y gallwch gyflwyno datganiad diddordeb.

**Byddwch yn  
rhan o rywbeth  
gwych!**